WG35.5-149

# ER COF AM

# Mrs. Sarah Davies Powell.

CARDIFF FREE LIBRARIES.

Presented by

Henry Blackwell Esq

New York U.S.A

10 - 3 - 1908

532W

# MRS. SARAH DAVIES POWELL.

Ganwyd Mrs. Sarah Davies Powell, gweddw y diweddar Barch. Howell Powell, yn Tredegar Sir Fynwy, D. C., Tachwedd 22, 1822 Yr oedd yn blentyn ieuengaf Morgan a Magdalen Davies. Y plant eraill oeddynt Mary, Dafydd, Richard, Elizabeth, Ioan a Martha. Yr unig un sydd yn fyw yn awr yw yr olaf, Mrs. Martha Lewis, yr hon sydd yn cartrefu yn agos i Pomeroy, Ohio.

Magwyd Sarah yn ofalus yn Penuel, eglwys y T. C. yn Tredegar, gan rieni duwiol. Fel plentyn, yr oedd yn nodedig am ei chof rhagorol, yr hwn a ddefnyddiodd lawer iawn i ddysgu penodau o'r Ysgrythyrau, a'u hadrodd gyda chywirdeb, ac effeithiolrwydd anarferol yn y capel a'r ysgol Sabbothol. Yr oedd ugeiniau o'r emynau goreu yn gyfarwydd iawn iddi, fel yr oeddynt hyd ei dydd olaf yn gyfeillion cyson iddi. Yr, oedd llafur yn cael ei wneyd yn ysgafnach, a bywyd yn fwy dysglaer, gan y trysorau gwerthfawr o wirionedd dwyfol a syniadau grasol, y rhai a ganodd ac a adroddodd yn fynych, hyd yn nod yn ei blynyddau olaf.

Cyn cyrhaedd pedair ar ddeg oed, daeth yn aelod cyflawn o'r eglwys; a phan yn rhoddi ei hunan yn egniol i'r alwedigaeth o *dressmaker*, daeth i gydnabyddiaeth a'i gwr dyfodol, a dysgodd y gwersi o ddwyn beichiau, y rhai a ranodd mor hir a chynorthwyol gydag ef. Chwefror 12, 1842, priododd Howell Powell yr hwn oedd eisoes yn wybyddus am ei theithi a'i duwioldeb yn yr eglwys, er nad oedd eto yn beiddio breuddwydio am y weinidogaeth.

Daethant i America gyda'i rhieni hi ar y llong *Thames* yr hon a hwyliodd o Liverpool Ebrill 9, 1842. Aethant ar unwaith i Sugar Creek, Pa., a buont fyw yno yn hapus, er yn dlawd, hyd

WG 35. 5. 149

nes aethant, yn Mehefin, 1851, i Cincinnati, O. Am agos i ugain mlynedd, rhanodd hi yma lafur a llwyddiant ei gwr fel bugail eglwys y T. C. ar College Street, yn neillduol trwy wneuthur eu cartref yn adnabyddus iawn am ei letygarwch. Llafuriodd yn foreu a hwyr yn egniol i wneyd i'r cyflog bychan ateb angenion cynyddol y teulu. Bendithiwyd hwy a saith o blant, dau o ba rai a fu farw yn eu mabandod, a Caroline Ann yn chwech mlwydd oed. Y rhal sydd yn fyw ydynt Richard, yn Cincinnati; Morgan V., yn Efrog Newydd; Thomas C., yn Providence, R. I,; a'r Parch. William A., yn Athens, Ohio.

Gan fod Mr. Powell wedi ei alw i gymeryd gofal eglwys y T. C. ar 13th Street, Efrog Newydd, yn Gorphenaf, 1870, symudodd y teulu i gyd ond Richard i'r ddinas hono. Bu Mr. Powell farw yno Mawrth 23, 1875; a pharhaodd Mrs. Powell i fyw yn Efrog Newydd gyda'i meibion, Morgan a Thomas, hyd Ebrill, 1885, pan y symudodd i fyw am beth amser gyda'i mab William, yn Newark, Ohio. Bu fyw am y rhan fwyaf o'i blynyddau olaf yn Efrog Newydd a Cincinnati, a chymerodd gysur wrth ymweled a chymdeithasu a'i hen gyfeillion mewn amryw leoedd, heblaw y rhai hyn. Ar ol cystudd trwm, hunodd yn yr angeu mewn tangnefedd, Mai 12, 1890, yn Cincinnati, yn mysg ei phedwar mab, a llu o gyfeillion galarus.

Cymerwyd ei rhan farwol i orphwys wrth ochr ei hoff gydymaith yn *Woodlawn Cemetery*, Efrog Newydd.

Gwasanaethwyd yn yr angladd, yn Cincinnati, gan y Parch. S. S. Cryor, bugail Eglwys Trydedd y Presbyteriaid, yn yr hon yr oedd Richard Powell yn henadur, a chan y Parch. Jeffreys J. Hopkins, o Norwood, O.; ac yn yr angladd yn Efrog Newydd, yn Nghapel 13th St., gan y Parch. J. Elwy Lloyd, Brooklyn, N Y.

*Athens, O.* WILLIAM A. POWELL.

x 2053132 63